| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Rhagfyr, 2014** |
| **PWNC** | **E-ysmygu** |
| **PWRPAS** | **Ysgogi trafodaeth ar gyfrifoldeb Aelodau Etholedig parthed e-ysmygu** |
| **AWDUR** | **Geraint George<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Fel y mae'r pwyllgor yn ymwybodol, gyda dyfodiad Cyfraith Ddi-Fwg Deddfwriaeth 2007, daeth yn anghyfreithlon i unrhyw un ysmygu mewn unrhyw le oedd yn weithfan caedig i unrhyw berson.

   Mae'r canllawiau sy'n cael eu darparu gyda'r Gyfraith Ddi-Fwg Deddfwriaeth 2007, yn nodi: *"Effaith y gyfraith newydd fydd na chaniateir i chi, eich staff, eich cwsmeriaid na'ch ymwelwyr ysmygu o fewn mangre eich busnes neu eich sefydliad, os ydynt yn 'gaeedig' neu os ydynt yn 'sylweddol gaeedig'.*

2. Datblygwyd polisiau gan y Cyngor i gyd-fynd gyda'r Mesur hwn, ac fe'i addaswyd yn ddiweddar (Rhagfyr 2013) yn sgil dyfodiad e-sigarennau. Mae polisi cyfredol y Cyngor ar gyfer staff yn nodi fel isod

   "*Ni chaniateir ysmygu yn yr adeiladau na'u cyffiniau. Er enghraifft ni chaniateir ysmygu ger mynedfeydd na ffenestri adeiladau'r Cyngor nac unrhyw ardal arall union y tu allan, ble gallai mwg gael effaith ar weithwyr eraill neu gyfleu delwedd negyddol o'r Cyngor. Bydd y Polisi hwn yn gymwys i holl weithwyr y Cyngor. Mae hyn hefyd yn cynnwys y defnydd o e-sigarennau*".

3. Fodd bynnag, nid yw'r polisi yn cynnwys Aelodau Etholedig. Credir ei bod yn Amserol, gyda dyfodiad gwe-ddarlledu a chynnydd cyffredinol mewn niferoedd sy'n defnyddio e-sigarennau i gynnal trafodaeth am ddefnydd aelodau o e-sigarennau, gan nodi pryd yr ystyrir defnydd yn addas neu beidio. Wrth gasglu barn yn anffurfiol yn yr hyfforddiant gwe-ddarlledu diweddar, amlygwyd bod mwyafrif arwyddocaol o blaid gwaharddiad.

4. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a yw am i'r cyngor fabwysiadu datganiad polisi sydd yn ymestyn y gwaharddiad ar y defnydd o e-sigarennau yn adeiladau'r Cyngor a'u cyffiniau i aelodau etholedig